# TOWN AND COUNTRY PLANNING (GRUG-Y-GORLLWYN) TECHNICAL SITE DIRECTION 2016

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on them by Articles 14(3) and 18(1) of the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012, hereby direct as follows:

1. This Direction may be cited as the Town and Country Planning (grug-y-Gorllwyn) Technical Site Direction (2016)

2. In this Direction –

   “consultee” means the Secretary of State for Business, Innovation and Skills acting through that part of the Department for Business, Innovation and Skills known as the Meteorological Office (the ‘Met Office’) located at: Met Office, Fitzroy Road, Exeter, Devon, EX1 3PB;

   “safeguarding map” means the map issued for the purpose of this Direction and certified by the Welsh Ministers on 16 February 2016 to be the safeguarding map for the technical site marked:

   ‘MO/RAD/10, TOWN AND COUNTRY PLANNING (GRUG-Y-GORLLWYN), TECHNICAL SITES DIRECTION 2016; and,

   “the technical site” means the site at Crug-y-Gorllwyn identified with a X on the safeguarding map.

3. A local planning authority, before granting permission for the development of land within or in the neighbourhood of the technical site shall, to the extent specified on the safeguarding map in relation to particular parts shown thereon, consult the consultee.

4. For the purpose of consultation under this Direction the local planning authority shall furnish to the consultee a copy of the application for permission for the development in question together with copies of any submitted plans showing the location with a Grid Reference (to at least 6 figures each of Eastings and Northings) and the elevation of the site (to an accuracy of 0.25 meters above Ordnance Datum), together with particulars of the layout, dimensions and heights of buildings or works to which the application relates, and shall furnish such further information as is necessary to enable them to consider the application.

5. Subject to paragraph 6, a local planning authority which has provided information to the consultee in accordance with paragraph 4 in respect of an application for planning permission to develop land within or in the neighbourhood of the technical site shall not grant planning permission for the development before the expiry of a period of 21 days beginning with the date advised in writing by the consultee as the date of receipt of the information

6. The local planning authority shall notify the consultee if the authority propose to grant permission for the development of land within or in the neighbourhood of the technical site, or to grant permission subject to conditions, contrary to the advice of the consultee.

7. Where a local planning authority are required to notify in accordance with paragraph 6 they shall as soon as practicable send to the consultee with the following information –

   (a) a copy of the application (including any accompanying plans or drawings);

   (b) a copy of the advice from the consultee about the proposed development;

   (c) a statement providing sufficient information to demonstrate that, in reaching a decision on the application, they have assessed the application in light of the guidance in Annex 2 to NAFW Circular 1/2003; and

   (d) a statement of reasons for proposing to grant planning permission, or to grant permission subject to conditions, contrary to the advice of the consultee.

8. Subject to paragraph 9, where a local planning authority has provided notification in accordance with paragraph 6, they shall not grant planning permission for the development before the expiry of a period of 28 days from the date advised in writing by the consultee as the date of receipt of the information specified in paragraph 7.

9. If, before the expiry of the 28 day period mentioned in paragraph 8, the Welsh Ministers have notified the local planning authority that they do not intend to issue a Direction under section 77 of the Town and Country Planning Act 1990 in respect of that application, the local planning authority may proceed to determine that application.

10. The Ministry of Defense (Crug-y-Gorllwyn M) Technical Site Direction issued by the Welsh Assembly Government, dated 4 June 2003 is cancelled by this Direction.

Signed by Neil Hemington, Head of Planning Directorate, under authority of the Minister for Natural Resources, one of the Welsh Ministers

08/02/2016

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF (GRUG-Y-GORLLWYN) CYFARWYDDYD SAFLE TECHNEGOL 2016

Mae Gweinidogion Cymru trwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan Erthyglau 14(3) a 18(1) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) 2012, yn rhoi'r cyfarwyddyd canlynol:

1. Gellir dyfynnu'r Cyfarwyddyd hwn fel Cynllunio Gwlad a Thref (Grug-y-Gorllwyn) Cyfarwyddyd SafleTechnegol (2016).

2. Yn y Cyfarwyddyd hwn -

   ystyr "ymgynghorai" yw'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau sy'n gweithredu drwy'r rhan honno o'r Adran Fusnes, Arloesi a Sgiliau a elwir yn Y Swyddfa Feteorolegol (Y 'Swyddfa Dywydd') yn: Met Office, Fitzroy Road, Exeter, Devon, EX1 3PB;

   Golyga "map diogelu" fod y map sy'n cael ei gyhoeddi at ddibenion y Cyfarwyddyd hwn ac sy'n cael ei ardystio gan Weinidogion Cymru ar 16 February 2016 y map diogelu ar gyfer y safle technegol a nodir:

   'MO/RAD/10, CYNLLUNIO GWLAD A THREF (GRUG-Y-GORLLWYN) CYFARWYDDYD SAFLE TECHNEGOL 2016; ac,

   ystyr "safle technegol" yw y safle yn Grug-y-Gorllwyn a nodir gyda X ar y map diogelu.

3. Cyn rhoi caniatâd i ddatblygu tir o fewn y safle technegol neu yng nghyffiniau'r safle, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ymgynghori â'r ymgynghorai i'r graddau a nodwyd ar y map diogelu mewn perthynas â'r rhannau penodol a ddangosir arno.

4. At ddibenion ymgynghori o dan y Cyfarwyddyd hwn rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol roi copi o'r cais am ganiatâd i ddatblygu sydd o dan sylw i'r ymgynghorai ynghyd â chopïau o unrhyw gynlluniau a gyflwynwyd sy'n dangos y lleoliad gyda Chyfeirnod Grid (o leiaf 6 rhif yr un o'r Dwyreiniad a'r Gogleddiad), a pha mor uchel yw'r safle (yn gywir hyd at o leiaf 0.25 metr uwchlaw'r Datwm Ordnans), ynghyd â manylion y cynllun, mesuriadau ac uchder yr adeiladau neu'r gwaith y cyfeirir atynt yn y cais, a rhoi iddynt unrhyw wybodaeth arall yn ôl yr angen er mwyn iddynt fedru ystyried y cais.

5. Yn ddarostyngedig i baragraff 6, rhaid i awdurdod cynllunio lleol sydd wedi darparu gwybodaeth i'r ymgynghorai yn unol â pharagraff 4 mewn perthynas â chais am ganiatâd cynllunio i ddatblygu tir o fewn neu yng nghyffiniau'r safle technegol, beidio â rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu cyn i'r cyfnod o 21 diwrnod ddod i ben, sef y cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad a nodwyd yn ysgrifenedig gan yr ymgynghorai fel dyddiad derbyn y llythyr.

6. Rhaid i’r awdurdod cynllunio lleol hysbysu’r ymgynghorai os yw’r awdurdod yn bwriadu rhoi caniatâd i ddatblygu tir o fewn neu yng nghyffiniau’r safle technegol, neu yn bwriadu rhoi caniatâd yn unol â’r amodau, yn groes i gyngor yr ymgynghorai.

7. Lle bo’n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu yn unol â pharagraff 6 byddant yn anfon yr wybodaeth ganlynol i’r ymgynghorai cyn gynted ag y bydd hynny’n ymarferol -

(a) copi o’r cais (gan gynnwys unrhyw gynlluniau neu ddarluniau cysylltiedig)

(b) copi o’r nodyn cynghori oddi wrth yr ymgynghorai ar y datblygiad arfaethedig

(c) datganiad yn darparu gwybodaeth ddigonol i ddangos eu bod, wrth benderfynu ar y cais, wedi asesu’r cais yn unol â’r canllawiau yn Atodiad 2 i Gylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1/2003

(d) datganiad o’r rhesymau dros y bwriad i roi caniatâd cynllunio, neu i roi caniatâd yn unol ag amodau, sydd i’r gwrthwyneb i gyngor yr ymgynghorai.

8. Yn ddarostyngedig i baragraff 9, pan fydd awdurdod cynllunio lleol wedi rhoi hysbysiad yn unol â pharagraff 6, ni ddylent gymeradwyo caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith datblygu cyn y daw’r cyfnod o 28 diwrnod i ben, sef y cyfnod o’r dyddiad a nodwyd yn ysgrifenedig gan yr ymgynghorai fel dyddiad derbyn yr wybodaeth a nodwyd ym mharagraff 7.

9. Os bydd Gweinidogion Cymru wedi hysbysu’r awdurdod cynllunio lleol, cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod a nodwyd ym mharagraff 8, nad yw’n bwriadu cyhoeddi Cyfarwyddyd o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â’r cais, mae’n bosibl y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn dymuno penderfynu ynghylch y cais hwnnw.

10. Mae Cyfarwyddyd Safle Technegol y Weinyddiaeth Amddiffyn (Crug-y-Gorllwyn M) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 4 Mehefin 2003 wedi’i ddisodli gan y Cyfarwyddyd hwn.

Llofnodwyd gan Neil Hemington,
Pennaeth y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, o dan awdurdod y Gweinidog dros Gyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

08/02/2016